S4C

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 473
10:00, 24 Hydref 2024
Swyddfa S4C, Caernarfon

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Guto Bebb [GB], Cadeirydd y Bwrdd
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Geraint Evans [GE], Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi
- Chris Jones [CJ], Aelod Anweithredol – yn rhithiol, tan eitem 3
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Sioned Wiliam [SW], Prif Weithredwr (dros dro)

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd Bwrdd S4C
- Nia Bennett [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (dros dro) – yn rhithiol, ar gyfer eitem 3
- Hanna Davies [HD], Swyddog Ymchwil – yn rhithiol, ar gyfer eitem 3
- Rebecca Griffiths [RG], Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata – yn rhithiol, ar gyfer eitem 3
- Eilir Jones [EJ], Pennaeth Ymchwil Cynulleidfa – yn rhithiol, ar gyfer eitem 3
- Fflur Jones [FfJ], Partner Rheoli, Darwin Gray – yn rhithiol, ar gyfer eitem 7
- Llinos Wynne [LlW], Pennaeth Dogfennau a Ffeithiol Arbennig – ar gyfer eitem 4

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Adele Gritten [AG], Aelod Anweithredol
- Manon Edwards Ahir [MAE], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata
- Dewi Evans [DE], Rheolwr Prosiectau

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd**<br><br>Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol<br><br>Roedd GB a SW wedi cael cyfarfod adeiladol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Lisa Nandy AS, a'r Gweinidog perthnasol, Stephanie Peacock AS, ar 22 Hydref 2024.<br><br>Cynhadledd y Blaid Lafur<br><br>Roedd GB a Mali Williams wedi mynychu cynhadledd y Blaid Lafur yn Lerpwl ar 24 Medi 2024. Tra yno, roeddent wedi cwrdd gyda gwahanol wleidyddion, gan gynnwys Ruth Jones AS, Cadeirydd newydd y Pwyllgor Materion Cymreig.<br><br>Cyfarfodydd yn Llundain | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ar 07 Hydref 2025, fe gwrddodd GB a GP gyda Chadeirydd y BBC, Samir Shah yn Llundain. Trafodwyd amrywiol bethau.<br><br>Wedi'r cyfarfod gyda'r BBC, fe gwrddodd GB a GP gyda Becky Gittins AS, sy'n PPS yn Swyddfa Cymru, ac yn noddi derbyniad y darlledwyr cyhoeddus Cymreig yn San Steffan ar 13 Tachwedd 2024..<br><br><u>Mynychu digwyddiadau eraill</u><br><br>Nododd GB ei fod hefyd wedi mynychu'r digwyddiadau corfforaethol canlynol:<br>• Bwrdd S4C yn y bêl droed Cymru v Montenegro ar 14 Hydref 2024.<br>• Derbyniad yn Senedd Cymru i ddathlu menywod ym myd newyddiaduraeth, ar 15 Hydref.<br>• Derbyniad i ddathlu pen-blwydd Pobol y Cwm yn 50, ar 16 Hydref.<br><br><u>Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol i'r Bwrdd</u><br><br>Adroddodd GP ei fod wedi derbyn diweddariad gan y DCMS ynghylch y broses i benodi aelodau anweithredol newydd: roeddent bellach yn bwriadu hysbysebu am Gadeirydd, a hyd at bump aelod gweithredol, fel rhan o'r ymgyrch. Roedd y DCMS hefyd yn bwriadu defnyddio gwasanaeth pen-hela I'w cynorthwyo gyda'r broses. | |
| 3. | [gadawodd CJ y cyfarfod]<br><br>[ymunodd NB â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Cyflwynodd SW yr adroddiad, gyda aelodau eraill y Tîm Rheoli yn cyflwyno'r elfennau oedd roedd ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar bynciau yn cynnwys: Cynnwys (uchafbwyntiau diweddar, y dashfwrdd misol diweddaraf, adborth drwy'r Wifren, adborth trwy weithgareddau i ganfod barn y gynulleidfa, a blaenoriaethau'r cyfnod nesaf); Cyfathrebu a Marchnata; Pobl a Diwylliant; Cyllid; Risg; ac S4C Masnachol.<br><br>Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Bwrdd. Wrth wneud hynny, canolbwyntiwyd ar rai elfennau penodol.<br><br>[ymunodd EJ, HD a RG â'r cyfarfod]<br><br><u>Cynnwys</u><br><br>Nododd GE bod e wedi rhoi gwybod i'r sector bod S4C yn bwriadu cyflwyno ffenestri comisiynu i helpu cwmnïoedd i wybod pryd maent angen staff er mwyn cynnig / datblygu syniadau, a phryd fyddant yn derbyn penderfyniad S4C ar eu syniad.<br><br>Hefyd, nododd GE dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd sector yng nghanol mis Tachwedd.<br><br>**Penderfyniad: I rannu dyddiadau'r cyfarfodydd sector gyda'r aelodau anweithredol.**<br><br>Wrth i EJ gyflwyno'r Dashfwrdd Misol holodd DLP ynglŷn â'r lleihad yn y niferoedd oed 16-44 sy'n gwylio S4C yn llinol. Eglurodd EJ bod y shifft i ffwrdd o wylio llinol ymysg cynulleidfaoedd iau yn digwydd yn gynt na chynulleidfaoedd eraill - ac mae'n digwydd i bob darlledwr llinol. Ychwanegodd bod y dashfwrdd misol ar gyfer Medi yn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod o wylio ar Clic ac iPlayer – ond dyw hynny ddim o reidrwydd yn golygu mai gwylwyr iau ydynt.<br><br>[gadawodd EJ, HD ac RG y cyfarfod]<br><br><u>Pobl a Diwylliant</u><br><br>Roedd GB wedi cael sgwrs gyda Carwyn Donovan, swyddog undeb Bectu, yn ystod derbyniad Pobol y Cwm yn 50. Nododd bod CD yn canmol y berthynas rhwng S4C a Bectu bellach.<br><br>Byddai'r Arolwg Pwls nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Tachwedd. Holwyd ynghylch pryd fyddai'r canlyniadau ar gael?<br><br>**Penderfyniad: I rannu uchafbwyntiau'r arolwg pwls gyda'r Bwrdd ym mis Rhagfyr.**<br><br>Bu trafodaeth ynglŷn â newid lleoliadau cytundebol staff S4C, a nodwyd bod y gweithle wedi newid ers Covid. Pwysleisiwyd taw'r Egin yw'r pencadlys a bod angen parhâi i gynnal cyfarfodydd, hyfforddiant sector, a phrentisiaethau yno er mwyn parhau i godi safon y gweithlu'n lleol.<br><br>Roedd y broses i benodi'r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant newydd yn parhau. Adroddodd NB y byddai'r ddwy wnaeth orau yn y cyfweliadau cychwynnol yn cael eu cyfweld yn derfynol yr wythnos ganlynol.<br><br>Mae Llywodraeth y DU nawr yn ymgynghori ar newidiadau i delerau cyflogaeth sylfaenol staff (e.e. hyblygrwydd, cyfnod prawf, ayyb). Mae S4C yn bwriadu cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.<br><br>Holodd DLP i NB sut oedd hi'n gweld effaith y cynllun cyfathrebu mewnol? Atebodd bod yna deimlad bod pethau'n mynd i'r cyfeiriad cywir a bod staff yn teimlo'n bositif ar hyn o bryd.<br><br>[gadawodd NB y cyfarfod]<br><br><u>Cyllid a Risg</u><br><br>Awgrymodd DLP, wrth ystyried fformat newydd Adroddiad y Tîm Rheoli, bod angen mwy o wybodaeth am risg. Efallai penawdau yn sôn am y pum prif risg a beth sydd wedi newid a hefyd heb newid. Soniodd hefyd byddai'n ddefnyddiol cael gwell trosolwg ynghylch adroddiadau cyllid.<br><br>**Penderfyniad: Ychwanegu mwy o wybodaeth ac uchafbwyntiau i'r sleidiau Risg a Chyllid.**<br><br><u>S4C Masnachol</u><br><br>Wrth ddiweddaru'r Bwrdd ar beth drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Masnachol ar 16 Hydref holwyd i'r Bwrdd gymeradwyo newid amodau'r Gronfa Twf i alluogi rhywfaint o fuddsoddi tu fas i Gymru.<br><br>Esboniodd EM bod amcanion y gronfa yn parhau'r un peth – mai dim ond yr amodau fyddai'n newid – ac y byddai unrhyw fuddsoddiad dros £500k angen dod 'nôl i'r Bwrdd i gael ei gymeradwyo beth bynnag. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo argymhelliad y Bwrdd Masnachol ynghylch newid amodau'r Gronfa Twf ond holi'r Bwrdd Masnachol i fod yn sensitif i bryderon y Bwrdd.** | |
| 4. | [LlW yn ymuno â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad: Ffocws ar y genre 'Rhaglenni Ffeithiol'**<br><br>Cyflwynodd LlW trosolwg o'r blaenoriaethau ar gyfer y genre Rhaglenni Ffeithiol. Wrth wneud hynny, cyfeiriodd at ddata ynghylch perfformiad cyfresi ffeithiol diwethaf ar draws gwahanol fesuriadau.<br><br>Nododd LlW yn benodol bod ffigyrau gwylio Prynhawn Da wedi cynyddu'n sylweddol ers yr ail-lansio a hefyd yn denu cynulleidfa dda ymysg y grŵp oedran 16-44. Serch hynny, Y Llinell Las oedd wedi perfformio orau o blith cynnwys ffeithiol, o ran nifer ac ymateb y gwylwyr ac ar draws gwahanol ddangosyddion.<br><br>Ynglŷn â'r cyfresi sydd ddim gwastad yn perfformio cystal maent yn aml yn cael eu comisiynu am wahanol resymau – efallai am ei fod yn bwysig bod gan S4C gynnwys o'r math.<br><br>[gadawodd LlW y cyfarfod] | |
| 5. | **Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu**<br><br>Amlinellodd SW y prif ddatblygiadau ers yr adroddiad blaenorol i'r Bwrdd.<br><br>Er i'r cynllun gwreiddiol gynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad annibynnol o'r swyddogaeth AD, roedd y Tîm Rheoli bellach o'r farn nad oedd angen hyn mwyach.<br><br>Esboniwyd bod y newidiadau diweddar i strwythur yr adran, a mewnbwn Nia Bennett fel ymgynghorydd tra ein bod yn penodi Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, wedi arwain at adolygiad o brosesau a ffyrdd o weithio oddi fewn i'r adran, yn unol â fframwaith arfer da y CIPD.<br><br>**Penderfyniad: I dderbyn argymhelliad y Tîm Rheoli bod dim angen adolygiad annibynnol o'r swyddogaeth AD ar hyn o bryd, ond y Tîm Rheoli i ystyried y mater ymhen blwyddyn.**<br><br>**Penderfyniad: I gyhoeddi'r diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ar y wefan.** | |
| 6. | **Diweddariad ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth – Chwarteri 1 a 2**<br><br>Yn absenoldeb DE, cyflwynodd SW y dashfwrdd ar ei newydd wedd – oedd yn caniatáu rhannu gwybodaeth ar lefel uwch mewn ffordd fwy cryno.<br><br>Esboniwyd mai'r bwriad yn awr oedd datblygu KPIs ar gyfer galluogi'r Bwrdd i gael gwell trosolwg o'r gynnydd ar gyflawni'r pileri strategol. Bydd y dangosyddion hynny'n cael eu hychwanegu i'r dashfwrdd pan fyddant wedi eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo Diweddariad ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (er mwyn ei rannu gyda'r DCMS yn y cyfarfod chwarterol fis Tachwedd).** | |
| 7. | [ymunodd FfJ â'r cyfarfod]<br><br>**Ymateb y Bwrdd i'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu**<br><br>Yn dilyn Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd ar 19 Medi 2024, roedd FfJ wedi arsylwi cyfarfod o Bwrdd y Grwp Masnachol. Wrth gyflwyno ei hadroddiad terfynol i'r Bwrdd, holodd oes oedd yr aelodau yn hapus gyda lefel y manylder yr oedd wedi cynnwys yn sgil | |

| | | |
|---|---|---|
| | arsylwi'r cyfarfod hwnnw, yn enwedig gan fod disgwyliadau yn y Ddeddf Cyfryngau 2024 ynghylch gweithgareddau masnachol S4C, a goblygiadau hynny ar gyfer trefniadau adrodd i'r Bwrdd. Nododd y Bwrdd bod nhw'n fodlon gyda'r cynnwys.<br><br>Ynglŷn â'r gymhariaeth rhwng Bwrdd y Grŵp Masnachol a'r Bwrdd atebodd FfJ bod cylch gwaith Bwrdd y Grŵp Masnachol yn haws ond fod cylch gorchwyl y Bwrdd yn gliriach, sy'n beth positif. Byddai creu rhaglen waith ar gyfer y Tîm Rheoli a'r Bwrdd (a'i Bwyllgorau) yn helpu yn hynny o beth.<br><br>Trafodwyd argymhellion FfJ, yn enwedig mewn perthynas â lleihau nifer y pwyllgorau. Awgrymodd FfJ cadw'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a hefyd Pwyllgor Taliadau. Fodd bynnag, roedd yn argymell dod â'r materion eraill fyddai'n hanesyddol wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Phobl a Diwylliant i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd.<br><br>**Penderfyniad: I ddileu'r pwyllgorau Cynnwys, Cyfathrebu a Phobl a Thaliadau ond cadw'r Pwyllgor Archwilio a Risg a chyflwyno Pwyllgor Taliadau.**<br><br>Roedd teimlad cyffredinol yn y cyfarfod byddai cynnal cyfarfodydd misol y Bwrdd yn ormod, ac felly y dylid anelu am gyfarfod y Bwrdd bob rhyw 6 wythnos. Hefyd dylid gwahodd holl aelodau'r Tîm Rheoli i fynychu trwy gydol bob cyfarfod Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I gynnal 6 cyfarfod hir o'r Bwrdd, gyda 2 gyfarfod strategol/ anffurfiol y flwyddyn (yn ddibynnol ar y rhaglenni gwaith newydd).**<br><br>**Penderfyniad: Gwahodd aelodau'r Tîm Rheoli i fynychu trwy gydol holl gyfarfodydd y Bwrdd i'r dyfodol.**<br><br>Awgrymodd DLP y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd dderbyn diweddariad ar gyfathrebu corfforaethol (mewnol, allanol a gyda rhanddeiliaid allweddol) fel rhan o Adroddiad y Tîm Rheoli, oherwydd mae'n wahanol i farchnata cynnwys.<br><br>**Penderfyniad: I gynnwys diweddariad ar gyfathrebu corfforaethol (mewnol, allanol a gyda rhanddeiliaid allweddol) fel rhan o Adroddiad y Tîm Rheoli i'r dyfodol.**<br><br>**Penderfyniad: I ddrafftio nodyn at staff (gydag adborth wrth FfJ) i grynhoi canfyddiadau FfJ ac ymateb y Bwrdd.**<br><br>Trafodwyd y camau nesaf a phenderfynwyd y dylai GP arwain ar y cynllun gweithredu, gyda mewnbwn gan FfJ.<br><br>**Penderfyniad: I baratoi adroddiad i'r Bwrdd mewn tua chwe mis ar sut mae S4C yn cyflawni'r cynllun gweithredu newydd.** | |
| 8. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 26/09/2024); a<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 16/10/2024). | |
| 9. | **Adroddiadau a gymeradwywyd / nodi heb yr angen am drafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhywun ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun. | |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg</u><br><br>Cymeradwywyd cadw'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg fel ag y maent am y flwyddyn nesaf.<br><br><u>Adroddiad Ariannol Chwarter 1, 2024–25</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd trosglwyddiadau cyllideb oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br><u>Adroddiad Ariannol Chwarter 2, 2024–25</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd trosglwyddiadau cyllideb oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br><u>Adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr adroddiad i'w gyflwyno i'r BBC.**<br><br><u>'Cyflog ac Atal o'r Gwaith'</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y polisi 'Cyflog ac Atal o'r Gwaith'.**<br><br><u>Adroddiad Rhaglen Wrando 2024</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 472, a gynhaliwyd ar 17/07/2024.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u><br><br>Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf.<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf. | |